


# Adroddiad Blynyddol 2019/20

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb | 7 |
| Pa gamau gweithredu allweddol wnaethom ni fwrw ymlaen â nhw eleni? | 8 |
| Beth ddywedasom ni y byddem yn ei wneud yn well eleni? | 12 |
| Felly beth mae ein data yn dweud wrthym ynghylch pa mor dda yr ydym wedi gwneud? | 13 |
| Casgliadau | 16 |
| Pa gamau mae angen inni eu cymryd ar unwaith? | 17 |
| Pa newidiadau mae angen inni eu gwneud eleni? | 18 |
| Pa newidiadau mae angen inni eu gwneud i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol? | 20 |
| Y Grŵp Monitro Cydraddoldeb Strategol | 20 |
| Cyflawni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol | 24 |
| Tystiolaeth o'r Pum Ffordd o Weithio | 25 |
| Astudiaethau Achos | 27 |


hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain a bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.

*Clawr blaen:* Cyfansoddwr Teifi Emerald yn gweithio gydag actorion Theatr Hijinx fel rhan o brosiect Symud CoDI Tŷ Cerdd (llun: Matthew Thistlewood)



“Mae’r Coronafeirws wedi cynyddu’n fawr yr anghydraddoldebau mae lleiafrifoedd y gwahan-iaethir yn eu herbyn yn eu hwynebu yng Nghymru. Mae Black Lives Matter a chynghrair celfyddydau anabledd y Deyrnas Unedig #WeShallNotBeRemoved wedi bwrw goleuni didostur ar yr anghydradd-oldebau hyn ac mae Cyngor Celfyddydau Cymru’n fwy penderfynol nag erioed o wrando a gweith-redu.”

**Andrew Miller**
Cadeirydd, Grŵp Monitro Cydraddoldeb



Reflections, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru. Ffilm gan Fearghus Ó Conchúir, a berfformiwyd gan gyfranogwyr o Dawnsio ar gyfer Parkinson's (llun: Jonathan Dunn)



Ballet Cymru, Ysgol Ddawns Haf Cymru 2019 (llun: Sian Trenberth Photography)

# Cyflwyniad

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi dyletswyddau penodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cefnogi a helpu cynnydd mewn gwaith ym maes cydraddoldebau. I Gyngor Celfyddydau Cymru, mae adrodd ar Gydraddoldebau yn fwy na gofyniad cyfreithiol, mae'n sylfaenol i'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau craidd.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u nodi yn ein cynllun corfforaethol, 'Er Budd Pawb'. Rydym eisiau dangos yn amlycach ein bod yn coleddu cydraddoldeb ac yn dathlu amrywiaeth lle bynnag y'i ceir ym meysydd hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, anabledd neu gyfoeth. Mae cymdeithas hael, deg a goddefgar yn gynhwysol yn reddfol ac yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Ac mae'n rhaid i sefydliadau'r gymdeithas sy'n cael eu cyllido gydag arian cyhoeddus – gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau – adlewyrchu hyn.

Cam mawr ymlaen oedd cyhoeddi 'Er Budd Pawb'. Mae'n nodi ein huchelgeisiau a'n cynlluniau ar gyfer cynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, gan dargedu'r bobl hynny o gymunedau a chefndiroedd nad yw'r celfyddydau yng Nghymru'n eu cynrychioli'n llawn o hyd.

## Ein gweledigaeth yw Cymru deg a chyfartal lle mae'r celfyddydau ar gael yn helaeth ac yn rhwydd i bawb. Rydym yn benderfynol o hyrwyddo amrywiaeth a chwalu'r rhwystrau sy'n atal hyn rhag digwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn nhrydedd flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi'r heriau yr ydym yn dal i'w hwynebu a'r gwaith mae angen inni ei wneud o hyd.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon, Mawrth 2020, gwelwyd argyfwng digynsail y Coronafeirws/ Covid 19. Yn wyneb y pandemig byd-eang hwn, mewn un noson ataliwyd pob gweithgaredd celfyddydol a newidiwyd amgylchedd byw a gweithio pawb.

Daeth y sector celfyddydol a diwylliannol i stop ac mae hyn wedi parhau ymhell i mewn i 2020/21. Atal perfformiadau byw a gweithgarwch diwylliannol cyhoeddus fu un o'r ergydion mwyaf i ymdeimlad y gymdeithas o lesiant, yn ogystal ag i'r economi. Ond nid digwyddiadau cyfle cyfartal yw argyfyngau iechyd cyhoeddus: y bobl dlotaf, y rhai lleiaf hyddysg, y bobl sydd wedi'u hymyleiddio mwyaf ac, fel mae tystiolaeth yn dangos erbyn hyn, pobl anabl sy'n dioddef yr effeithiau gwaethaf.

Mae'n glir ein bod ni'n gweld cwestiynu ac ail-lunio gwerthoedd yn ddwys ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Nid yw pobl fwy dewr yn sôn am 'normalrwydd newydd' ar ôl Covid-19 – nid yw 'normalrwydd' yn bosibl nac efallai yr hyn mae'r cyhoedd ei eisiau neu'n ei haeddu.

Nid yw ‘normalrwydd’ wedi ein gwasanaethu’n dda ers tipyn. Mae’r sylw a roddwyd i brofiad byw pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y misoedd diwethaf wedi llenwi ein papurau newydd a’n sgriniau teledu. Mae lladdedigaeth drasig George Floyd a’r mynegiant amlwg o alar a dicter o dan faner Black Lives Matter wedi bod yn ddwys ac wedi peri gwyleidd-dra. Ni all neb beidio â bod yn ymwybodol erbyn hyn o effaith anghymesur feirws Covid-19 ar gymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Ond os yw’n diwylliant yn adlewyrchu pwy ydym ni, yna mae Black Lives Matter yn dweud wrthym nad ydym wedi sylwi o hyd bod y gymdeithas yn atgyfnerthu gwahaniaethu a diffyg cydraddoldeb.

Nid felly y dylai fod, ond weithiau mae angen argyfwng i hoelio ein sylw ar y rheiny y mae eu hawliau a’u hanghenion yn cael eu hanwybyddu bron yn ddidaro. Rhybuddiodd cynghrair nerthol o bobl anabl trwy eu hymgyrch “We Shall Not Be Removed” eu bod yn wynebu argyfwng cymdeithasol ac argyfwng iechyd wrth i’w cymuned o artistiaid anabl ddod yn fwyfwy ynysedig a dan fygythiad gan bandemig Covid-19. Roedd yn adeg bwysig i aros a sylwi.

Felly, awn ymlaen â phenderfyniad newydd i wneud yn well. Ni ddylai hawl i ddiwylliant fod i bobl freintiedig yn unig. Dyma’r her mae Cyngor y Celfyddydau’n dal i’w hwynebu. Rhaid inni beidio â gwastraffu’r cyfle hwn i weithio’n galetach i greu’r newid mae ei angen, ac ni fyddwn yn gwneud hynny.




Babanod Celf – Sesiwn Estynedig 2020, Oriel Gelf Glynn Vivian

## Amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb

Wrth ddatblygu ein cynllun yn 2017 roeddem eisiau canolbwyntio ar bum maes, sef:

1. Mynd ati i ymgysylltu, ymgynghori, darparu gwybodaeth a herio ein hunain a'n partneriaid
2. Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru'n well
3. Gwella cynrychiolaeth yn llywodraethiant sefydliadau celfyddydol ledled Cymru
4. Gwneud cynulleidfaoedd i'r celfyddydau yn fwy amrywiol
5. Gwneud cyfranogwyr yn y celfyddydau yn fwy amrywiol

Mae'r pum amcan hyn yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, yn y cynllun cyfredol rydym yn rhoi pwyslais arbennig ar gynyddu ymgysylltiad ymysg pobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Gwnaethom y dewis hwn oherwydd y rhain oedd y meysydd y pwysleisiwyd, yn ein gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth, bod angen rhoi sylw penodol iddynt.

## Pa gamau gweithredu allweddol wnaethom ni fwrw ymlaen â nhw eleni?

### Rydym wedi parhau i gefnogi chwe sefydliad trwy ein rhaglen Camau Creadigol.

Mae Camau Creadigol yn meithrin gallu a hyder sefydliadau diwylliannol amrywiol, gan eu helpu i dyfu nes cyrraedd sefyllfa lle gallant gystadlu am gyllid ar yr un telerau â sefydliadau mwy sefydledig.

Mae dau o'r sefydliadau a gefnogwyd trwy Gamau Creadigol wedi gwneud cynnydd sylweddol. Cwblhaodd

**Taking Flight Theatre Compan**y drydedd flwyddyn o ddatblygiad a sicrhaodd gyllid o £67,290 ar gyfer pedwaredd flwyddyn o ddatblygiad.

Cwblhaodd **Fio** flwyddyn gyntaf o ddatblygiad a sicrhaodd gyllid o £85,000 ar gyfer ail flwyddyn.

Llwyddodd y ddau gwmni hyn hefyd yn eu ceisiadau am gyllid prosiect o'n cynlluniau Loteri cyffredinol.

Cefnogwyd cwmnïau eraill hefyd. Llwyddodd **G Expressions** a **Sound Progression** ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen gan gael £35,800 a £30,000 yn y drefn honno.

Cafodd **Butetown Arts and Culture Association** £25,000 arall tuag at ei rhaglen datblygu tri cham.

Hefyd dechreuasom adolygu effeithiolrwydd Camau Creadigol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu rhaglen cydraddoldeb strategol newydd. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

### Llwyddodd pedwar artist o Gymru i gael dyfarnu comisiynau Unlimited.

Cynllun llawn bri yn y Deyrnas Unedig i gomisiynu artistiaid anabl blaenllaw yw Unlimited. Yma yng Nghymru roedd y rhain yn cynnwys Suzie Larke, Jonny Cotsen, Stephanie Beck a Stammermouth.

Datblygasom ein partneriaeth ag Unlimited yn ystod y flwyddyn. Roedd cyllid y Loteri wedi ei gwneud yn bosibl creu maes gwaith newydd, Unlimited Present, mewn lleoliadau ar draws Cymru. Rhoddodd y digwyddiadau hyn lwyfan i arddangos gwaith gan artistiaid anabl. Hefyd dygasant ynghyd artistiaid anabl, cynulleidfaoedd a phartneriaid yn y sector diwylliannol i drafod materion lleol a chenedlaethol ynghylch cynhyrchu a chyflwyno gwaith gan artistiaid anabl. Roedd y rhaglen ar fin dod i ben pan gyhoeddwyd y cyfyngiadau symud a bu'n rhaid canslo'r digwyddiadau olaf.

## Mae cynllun cerdyn mynediad Hynt wedi parhau i fod yn un o uchafbwyntiau ein gwaith.

Erbyn hyn mae gan fwy na **18,000** o bobl yng Nghymru gardiau Hynt. Mae **41** o leoliadau yng Nghymru wedi'u cofrestru gyda'r cynllun ac rydym wedi cymryd rhan weithredol mewn darn o waith a gomisiynwyd i edrych ar y potensial ar gyfer cynllun cerdyn mynediad ledled y Deyrnas Unedig.

## Mae gennym bartneriaeth sefydledig gyda'r Arts Marketing Association (AMA).

Cefnogasom 3 lle bwrsari i swyddogion marchnata o Gymru fynd i Ddiwrnod Cynhwysiant a Chynulleidfaoedd AMA. Hefyd cyllidasom 4 Bwrsari Aelodaeth AMA i unigolion anabl neu bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu rai sy'n gweithio i sefydliad a arweinir gan bobl amrywiol neu a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Cefnogodd ein cynllun rhwydweithio Cydrannu 7 menter newydd gyffrous.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Blind Bookworms Book Club** – clwb llyfrau aml-synhwyraidd a arweinir gan rwydwaith o bobl ifanc â nam ar eu golwg, ond sy'n agored i bawb
- Cynorthwywyd **Dinas a Sir Abertawe** i sefydlu rhwydwaith rhanbarthol o Gynhyrchwyr Creadigol sy'n dod i'r amlwg sydd o gefndiroedd duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a/neu gefndiroedd amrywiol
- **Jonny Cotsen** – trefnodd artist Byddar rwydwaith ar draws yr holl ffurfiau celf i ddwyn ynghyd artistiaid, hwyluswyr a phobl ifanc/myfyrwyr ar draws Cymru
- Dygodd **Susan McGowen** ynghyd rwydwaith yn canolbwyntio ar 'Famau sy'n Creu' a hyrwyddo beichiogrwydd a mamolaeth
- Trefnodd **Taking Flight** ddigwyddiad rhwydweithio/symposiwm yn hyrwyddo cynhwysiant, gan edrych yn benodol ar sut i wneud gofodau a pherfformiadau yn ddigyffro ac yn hygyrch
- Canolbwyntiodd **Rhwydwaith Grŵp Ardal Celfyddydau Gweledol ac Orielau Engage** ar wneud y gweithlu diwylliannol yn fwy amrywiol ac ar hawl diwylliannol
- Trefnodd **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuenctid** ddigwyddiadau rhwydweithio yn hybu cymorth, mynediad a chynhwysiant ar draws y celfyddydau i bobl ifanc.

## Cynyddodd Noson Allan nifer y cymunedau duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n hyrwyddo digwyddiadau.

Anogodd rhaglen ein cynllun teithio cymunedol gymunedau duon (Asiaidd) a lleiafrifoedd ethnig i ddod yn hyrwyddwyr mwy rheolaidd digwyddiadau Noson Allan. Hefyd cynigiodd y cynllun gyfleoedd i artistiaid anabl ac artistiaid o gefndiroedd duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gyflwyno eu gwaith. Mae'r rhain wedi cynnwys **Jonny Cotsen**, **Gods and Kings**, **Samina Chawdhury** a **Circus Raj**.

## Mae cydraddoldebau wedi bod yn ganolog wrth ddatblygu ein rhaglen datblygu'r Celfyddydau ac Iechyd.

Canolbwyntiwyd ar y celfyddydau a phobl hŷn, pobl anabl ac iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys rhaglen **cARTrefu Cymru** sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth ag **Age Cymru** a **Sefydliad Baring**.

## Rhaglen newydd o waith a lansiwyd eleni yw Llwybrau Creadigol.

Mae hyn yn cynnwys partneriaeth gyda **Weston Jerwood** i sicrhau bod 7 bwrsari ar gael yng Nghymru gyda'r bwriad o gynnig cyfle ar gyfer newid sylweddol i bobl ddawnus o gefndiroedd economaidd gymdeithasol nad oes ganddynt ddigon o gynrychiolaeth ar hyn o bryd ar draws y celfyddydau.

Hefyd sefydlasom berthynas weithio gydweithredol gyda **Sgiliau Creadigol a Diwylliannol** i edrych ar sefydlu rhaglen Uchelgeisiau Diwylliannol wedi'i seilio ar y celfyddydau. Roedd hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau i bobl ifanc sy'n wynebu anfantais sy'n eu hatal rhag cael gyrfaoedd yn y celfyddydau.

## Gwnaethom gynnydd sylweddol o ran gwneud gwefan Cyngor y Celfyddydau'n fwy hygyrch.

Lansiwyd ein gwefan newydd ym mis Mai. Roedd hyn yn gam sylweddol ymlaen ac ers hynny rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod yr holl ddogfennau PDF ar ein gwefan yn hygyrch i raglenni darllen sgrin. Hefyd mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar bob un o'n postiadau fideo ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau hygyrchedd i bawb, ac mae isdeitlau hefyd ar ein fideos mewnol i'r staff er mwyn sicrhau y gall holl aelodau'r staff eu deall.

Yn ein hymateb i Covid-19 aethom â'r gwaith hwn gam ymhellach gan ddarparu ein canllawiau cyllido mewn fformatau gwahanol gan gynnwys BSL. Hefyd cyhoeddasom ganllawiau newydd ar Ddatblygu Cynulleidfaoedd â Nam ar eu Golwg i'w hychwanegu at ein rhestr o ddogfennau cymorth anabledd.

### Comisiynasom 'becyn cymorth mynediad' i gynorthwyo ymgeiswyr â gwerth llai i asesu eu hygyrchedd eu hunain.

Nod y pecyn hwn oedd annog ymgeiswyr y byddai'n ofynnol iddynt fel arall gynnal archwiliad mynediad cymharol ddrud er mwyn gwneud cais i'r rhaglen mynediad Cyfalaf bach am gyllid i fynd i'r afael â materion sydd ar ôl.

### Cyflwynodd pob un o'r 67 o gleientiaid y Portffolio Celfyddydol Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Lansiasom ein Hadolygiad Buddsoddi o'r Portffolio Celfyddydol gan fynegi disgwyliad y byddai'r canlyniad yn gweld newid o ran cynrychiolaeth a gwelededd pobl o gefndiroedd nodweddion gwarchodedig. Nodasom yn benodol yr angen i newid mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu, arweinyddiaeth ac ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd.



Aisha Bywaters yn siarad yn ddigwyddiad hyfforddi Launchpad Ffilm Cymru ar gyfer talent greadigol bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (llun: David Lennon)

## Beth ddywedasom ni y byddem yn ei wneud yn well eleni?

Yn ein hadroddiad monitro blynyddol 2018/19, nodasom 6 maes allweddol yr oedd angen inni ganolbwyntio arnynt, sef:

- **Dywedasom y byddem yn parhau i godi proffil ein gwaith ar gydraddoldeb ac y byddem yn chwilio am gyfleoedd yng nghynhadledd nesaf Cyngor Celfyddydau Cymru.** Yn wreiddiol, cafodd y gynhadledd y bwriadwyd ei chynnal ym mis Ebrill ei symud i ddyddiad ym mis Medi ac roedd y gwaith cynllunio'n mynd rhagddo'n dda. Roedd ein huchelgais i ganolbwyntio'n bennaf ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn dal i fod wrth wraidd ein gwaith cynllunio. Fodd bynnag, gyda dyfodiad Covid-19 a'r cyfnod cloi ym mis Mawrth, gwnaethom y penderfyniad anodd i ganslo'r digwyddiad hwn. Mae Covid-19 wedi datgelu pwysigrwydd dod o hyd i gyfle newydd i roi sylw i ymgyrchoedd Black Lives Matter a We Shall Not be Removed.

- Rydym wedi rhannu storïau newyddion ac astudiaethau achos ar ein sianelau gwahanol gan gynnwys y wefan a chyfryngau cymdeithasol, a chynyddodd y gwaith hwn yn sylweddol eto wrth inni gyrraedd wythnosau cyntaf 2020/21.

- **Dywedasom y byddai gweithio i wneud gweithlu Cyngor y Celfyddydau a'r gweithlu ar draws sector y celfyddydau'n fwy amrywiol yn ffocws allweddol o'n cynllun yn 2019-20**. Rhoesom ar waith gyfres o gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwn. Gan ddysgu o'n partneriaeth â'r sector cyhoeddus a'r cyd-Gynllun Cydraddoldeb Strategol, bwrw ymlaen â sgyrsiau gyda **Choleg Caerdydd a'r Fro** a **Sgil Cymru** am brentisiaethau, gwaith ein grŵp Llwybrau Creadigol.

- Cawsom gyngor gan **Stonewall Cymru,** ac adolygwyd ein ffurflenni cais a'n hysbysebion swydd, a'u diwygio yn ei sgìl. Parhaom i dargedu ein gwaith recriwtio at gyrff cynrychiadol a chymunedau amrywiol.

- **Dywedasom y byddem yn gwella nifer y bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cyflogi gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru a'u cynrychioli ar eu Byrddau Rheoli.** Mae'n ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru gyflwyno cynllun gweithredu cydraddoldeb strategol yn un o amodau eu cyllido. Er bod yr holl sefydliadau wedi cyflawnai'r amod hwn, a bod ansawdd cyffredinol y cynlluniau wedi gwella, nid ydym yn gweld tystiolaeth o effaith y camau a nodir yn y cynlluniau.

- Roeddem hefyd wedi bwrw ymlaen â sgyrsiau gyda **BECTU** ynghylch ei **Gynllun Gweithredu Amrywiaeth Theatr** ac wedi penderfynu ar gyfres o gamau gweithredu a fyddai'n helpu i ysgogi gwelliant o ran amrywiaeth y gweithlu ar draws y rhan hon o'r sector. Unwaith yn rhagor, aeth y camau gweithredu hyn i gors gyda dyfodiad Covid-19.

## Felly beth mae ein data yn dweud wrthym ynghylch pa mor dda yr ydym wedi gwneud?

Mae'r data'n dweud wrthym fod gwneud ein gweithlu ein hunain yn fwy amrywiol yn dal i fod yn her allweddol. Mae gennym 93 aelod o staff ar hyn o bryd. O'r 93, mae gan 84.9% hunaniaeth Gwyn Prydeinig, Gwyn Seisnig, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Gogledd Iwerddon neu Wyn Cymreig.

Mae rhai aelodau staff yn dal i ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn, a chaiff y data am gefndir ethnig arall eu celu oherwydd y niferoedd bach. Yn yr un modd, nododd 89.1% o'r ymgeiswyr am swyddi eu bod o gefndir Gwyn.


Yn y data eraill:

Roedd **8.6%** o'n staff a **13%** o'r ymgeiswyr am swyddi yn nodi bod ganddynt anabledd


Mae gan **71%** o'n staff hunaniaeth heterorywiol neu strêt, a **5.4%** hunaniaeth hoyw/lesbiaidd

Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi yn debyg ar gyfer heterorywiol/strêt sef **76.1%**, ond dim ond **2.2%** sydd â hunaniaeth hoyw/lesbiaidd


Mae proffil oedran y staff yn amrywio'n sylweddol, felly hefyd proffil yr ymgeiswyr am swyddi. O ran ein staff:




staff 20-29 oed




staff 40-49 oed



staff 50-59 oed



ymgeiswyr 20-29 oed



ymgeiswyr 50-59 oed

Daw data Portffolio Celfyddydol Cymru o 39 o sefydliadau a'u cyflwynodd erbyn y dyddiad cau.

Effeithiodd Covid 19 ar aelodau eraill o'r portffolio ac nid oeddent yn gallu cyflwyno'u data cyn y dyddiad cau. Bydd y ffigurau hyn yn newid pan ddaw mwy o ganlyniadau i law, ond roedd y data a ystyriwyd gan y grŵp monitro wedi'u seilio ar gymaryddion ar draws y ddwy flynedd oddi wrth y 39 o sefydliadau yn unig. Dywedodd hyn wrthym fod y niferoedd a gyflogwyd yn gyffredinol wedi gostwng 12% ac roedd y rheiny yn bennaf yn bobl a gyflogwyd ar gontractau dros dro neu ddim oriau.

Mae nifer y bobl anabl a gyflogwyd wedi cynyddu pumed ran ond mae nifer y cyflogeion sy'n bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, cyflogeion hŷn a'r rhai â chredoau crefyddol penodol wedi gostwng ryw chwarter.

O'r **2,107** o gyflogeion:

mae **93** yn anabl

mae **97** o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

mae gan **163** hunaniaeth lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol

O ran byrddau rheoli Portffolio Celfyddydol Cymru, bu rhywfaint o ostyngiad yn y nifer gyffredinol, ond cynnydd cymharol fach yn nifer yr aelodau o grwpiau nodweddion gwarchodedig.

O'r **349** o bobl:

roedd gan **22** hunaniaeth anabl

daw **17** o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

mae gan **28** hunaniaeth lesbiaidd/hoyw/deurywiol

mae **175** yn bobl hŷn

mae **7** yn bobl ifanc (o dan 25 oed).

Ymrwymasom i lansio rhaglenni Loteri newydd.

Ar sail yr adborth a gawsom oddi wrth y sector a rhanddeiliaid eraill, aethom ati i wneud y broses ymgeisio'n haws. Hefyd gwnaethom newidiadau er mwyn sicrhau bod ein penderfynu'n cyd-fynd yn agosach â'n hamcanion cydraddoldeb.

Lansiwyd y rhaglen yn 2019.

Dengys data arian y Loteri y cafwyd **173** o geisiadau oddi wrth **145** o sefydliadau unigryw:

daeth **9** ohonynt o sefydliadau a arweinir gan bobl anabl, ac ariannwyd **6** o'r rhain

cyflwynwyd **8** gan sefydliadau a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac ariannwyd **4** o'r rhain

cyflwynwyd **12** gan sefydliadau a arweinir gan bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, ac ariannwyd **7** o'r rhain

Cafwyd **264** o geisiadau oddi wrth unigolion, a chyflwynodd **88** o'r rhain ffurflen monitro cydraddoldeb:

o'r rhai a lenwodd y ffurflen, roedd gan **10** hunaniaeth anabl, ac ariannwyd **6** ohonynt

bu'n rhaid 'celu'r' data mewn perthynas ag unigolion duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig gan fod y sampl yn rhy fach, ond mae'r wybodaeth yn dweud wrthym fod gan **13** o unigolion hunaniaeth "heb fod yn wyn"

Mae rhagor o ddata i'w weld ar ein gwefan

# Casgliadau

Daeth ein grŵp monitro i'r casgliadau canlynol:

1. Nid yw dau faes gwaith allweddol yn mynd i'r afael â'r materion a nodasom fel rhai sy'n ganolog i'n cynllun cydraddoldeb strategol cyfredol.
2. Nid yw'r camau a gymerwyd hyd yma'n arwain at wneud gweithlu'r celfyddydau yn fwy amrywiol nac yn cynyddu cyfleoedd i artistiaid o gefndiroedd amrywiol ymgysylltu â'r celfyddydau yng Nghymru.

Gofynnodd y grŵp monitro 3 chwestiwn allweddol iddo ef ei hun ar sail ei adolygiad o'r data:

1. Pa gamau mae angen inni eu cymryd ar unwaith?
2. Pa gamau mae angen inni eu cymryd eleni?
3. Pa newidiadau mae angen inni eu gwneud i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol?




Sblash Mawr, Glan y Afon, Casnewydd (llun: Kirsten Mcternan)

## Pa gamau mae angen inni eu cymryd ar unwaith?

Cododd pum cam brys allweddol o adolygiad y grŵp monitro o'n hadroddiad blynyddol a thrafodaethau ynghylch y sefyllfa ddigynsail mae ein cymunedau a'n sector ynddi, sef:

1. O fewn wythnosau, sefydlu cyfres o sgyrsiau rhwng y Cyngor ac artistiaid unigol. Dylai'r sgyrsiau hyn ganolbwyntio ar roi cyfle i'r unigolion hyn gael eu clywed. I artistiaid duon rannu eu profiadau o fyw a gweithio yng Nghymru ac i roi cyfleoedd i artistiaid anabl gynnal yr un sgyrsiau.
2. Mae angen inni edrych ar ad-drefnu ein cynhadledd er mwyn rhoi llwyfan i'r drafodaeth a'r ddadl bwysig roeddem wedi disgwyl eu cynnal ar ddechrau'r flwyddyn.
3. Mae angen inni gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2019/20, gan ystyried sut i'w wneud yn hygyrch i amrywiaeth o gynulleidfaoedd gwahanol. Wrth gyhoeddi'r adroddiad, mae angen inni ystyried sut y gallwn annog pobl i roi adborth ar ein canfyddiadau a'n casgliadau a chynnal deialog gyda ni ar sut i ysgogi newid.
4. Mae angen inni ddatblygu a chyhoeddi cynllun ymadfer o Covid-19 sydd â chydraddoldeb yn ganolog iddo a'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru wneud yr un peth.
5. Gan fod ein cynnydd tuag at wneud ein gweithlu ein hunain yn fwy amrywiol yn dal i fod yn araf, mae angen inni gymryd camau beiddgar yn awr i ysgogi newid. Byddai sefydlu rôl Asiant dros Newid yn y Cyngor yn gam mawr ymlaen.
6. Byddwn yn rhoi statws pwyllgor llawn o'r Cyngor i'r Grŵp Monitro Cydraddoldebau Strategol, ochr yn ochr â phwyllgorau ARAC a Chyfalaf..

## Pa newidiadau mae angen inni eu gwneud eleni?

Mae'r adolygiad o'n hadroddiad blynyddol yn llywio datblygiad cyfres o gamau gweithredu mae angen bwrw ymlaen â nhw yn ystod y flwyddyn ganlynol. 2020/21 yw'r flwyddyn dan sylw.

Y camau gweithredu allweddol ar gyfer ein cynllun eleni yw:

- **Rydym wedi cydnabod nad ydym yn llwyddo i ysgogi newid gwirioneddol o ran gwneud y gweithlu a byrddau rheoli'r sefydliadau a gyllidwn yn fwy amrywiol.**

  Amlygodd yr adolygiad blynyddol wendidau yn ein gwaith monitro ein hunain ac yn y ffordd yr ydym yn sicrhau y caiff cynnydd ei wneud. Byddwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn monitro'r ffordd y caiff cynlluniau gweithredu cydraddoldeb y sefydliadau a gyllidwn eu rhoi ar waith a'u heffaith. Byddwn yn edrych, gyda sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, ar sut y gellid cyhoeddi'r rhain. Byddwn yn edrych ar ein dull o gasglu data oddi wrth sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, ac yn cysylltu'r gwaith hwn yn agosach â'r gwaith o fonitro eu cynlluniau gweithredu.

- **Byddwn yn newid diwylliant ein Bwrdd ein hunain trwy greu gweithgor i edrych ar ffyrdd y gallwn fod yn llai ffurfiol.**

  Byddwn yn dysgu o'r newid mae cyfarfodydd ar-lein wedi'i achosi i'r ffordd y caiff ein cyfarfodydd eu cynnal ac yn edrych ar ffyrdd o wahodd y cyhoedd i'w gwylio.



Prosiect Canfod y Gân, Canolfan Gerdd William Mathias (llun: Iolo Penri)

- Byddwn yn gwneud newidiadau a gwelliannau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â chydraddoldebau yn rhaglen arian y Loteri

  Mae'n glir o adolygu'r cynnydd a wnaed bod angen newid ar bob cam o'r broses. Mae angen inni dynnu ar wybodaeth ac arbenigedd mewn meysydd eraill er mwyn edrych ar sut i annog ceisiadau oddi wrth sefydliadau ac unigolion mwy amrywiol a sut yr ydym yn cynorthwyo ymgeiswyr i lwyddo. Mae angen inni ystyried cynnwys ystod fwy amrywiol o brofiadau wrth wneud penderfyniadau ac mae angen inni ddatblygu dull newydd o fonitro i ble mae ein cyllid yn mynd a'r effaith a gaiff. Bydd y gwaith yn cynnwys edrych ar y rhesymau pam y gwelwyd cynnydd yn nifer yr unigolion a wnaeth gais inni am arian o'r Gronfa Ymateb Brys i Covid-19.

- **Byddwn yn parhau â'n gwaith o adolygu a diwygio ein dull gweithio o ran ymchwil a monitro.**

  Byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a nodir uchod ac yn edrych ar sut y gallwn gynnwys mesurau'n ymwneud â thlodi.

- **Byddwn yn bwrw ymlaen â'n gwaith i wneud ein gweithlu ein hunain yn fwy amrywiol.**

  Gan dynnu ar sgiliau ac arbenigedd Asiant dros Newid, partneriaid strategol ac unigolion, yn fewnol ac yn allanol, byddwn yn edrych yn fanwl ar y canfyddiad ohonom fel sefydliad, ac yn datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn. Byddwn yn bwrw ymlaen â'n prentisiaethau ac yn mynd ati i recriwtio.

- **Byddwn yn parhau i gyflawni'r hyn sy'n gweithio'n dda.**

  Byddwn yn cynnal ein rhaglenni llwyddiannus ond hefyd yn cynnwys cyfleoedd newydd i fyfyrio ac adolygu, gan dynnu ar brofiadau sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'n gwaith.

## Pa newidiadau mae angen inni eu gwneud i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol?

Teimlai ein grŵp monitro fod amcanion ein cynllun yn dal i fod yn angenrheidiol, ond byddwn yn edrych ar y camau gweithredu eto ac yn cyhoeddi cynllun newydd sy'n adlewyrchu'r newidiadau yr ydym wedi eu nodi. Dylai hynny olygu bod y cynllun bellach yn dilyn amserlen Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru a hefyd yn adlewyrchu'r amcanion fel y'u nodir yn y cyd-gynllun cydraddoldeb strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Y neges glir oddi wrth aelodau allanol ein grŵp monitro oedd bod angen i'r cynllun edrych a "theimlo'n" wahanol. Mae angen iddo adlewyrchu'r newid diwylliannol sydd wedi digwydd yn ystod wythnosau a misoedd cyntaf 2020/21.

## Y Grŵp Monitro Cydraddoldeb Strategol

Mae'r Cyngor wedi cymryd o ddifrif y gwaith o fonitro cyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae wedi gosod safonau uchel ac mae'n awyddus – nid yn unig i gyflawni ein rhwymedigaethau'n llawn – ond i hyrwyddo'r egwyddorion sy'n sail i'r ddeddfwriaeth.

Mae'r cyfrifoldeb beunyddiol am sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd gyda'r gwaith hwn wedi cael ei ddirprwyo i Grŵp Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gydag aelod o'r Cyngor yn Gadeirydd arno. Yn 2019/20 y Cadeirydd oedd Andrew Miller, ac roeddem wrth ein bodd i groesawu dau gynghorydd allanol newydd sef Shereen Williams a Lara Ratnaraja, a ymunodd â'n cynghorwyr presennol, Ele Hicks a Guto Gwilym, aelod y Cyngor Devinda de Silva a chydweithwyr o bob rhan o staff y Cyngor.

Mae'r Grŵp Monitro yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cyngor ar gyflawni'r gweithgareddau hynny yn y cynllun ac mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol.

### Aelodau Annibynnol

**Andrew Miller**

Ymgynghorydd a darlledwr ar y celfyddydau yw Andrew Miller. Mae ei yrfa yn ymestyn yn ôl 30 mlynedd yn niwydiannau diwylliannol y Deyrnas Unedig, o'r cyfryngau ac addysg i'r celfyddydau a diwylliant. Gan ddechrau ar ei yrfa ym maes darlledu yn y 1980au, mae Andrew yn rhan o'r genhedlaeth gyntaf o gyflwynwyr anabl ar deledu prif-ffrwd Prydain, ac aeth ymlaen i fod yn gynhyrchydd a chyfarwyddwr rhaglenni dogfen ar y celfyddydau a cherddoriaeth a enwebwyd am BAFTA.

Aeth ymlaen i ymgymryd ag uwch swyddi yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr, theatr Royal & Derngate a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, lle sefydlodd Andrew ganolfan aml-gelfyddydol newydd lwyddiannus iawn yng Nghaerdydd. Ef oedd y defnyddiwr cadair olwyn cyntaf i arwain lleoliad o bwys yn y Deyrnas Unedig. Yn fwy diweddar, bu'n cynorthwyo

Prifysgol Rhydychen i lunio rhaglen a diben artistig y Ganolfan Schwarzman newydd i'r Dynoliaethau, sydd i fod i agor yn 2024.

Andrew yw'r unig un sy'n aelod o Gynghorau Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chyngor Celfyddydau Cymru, lle bu'n aelod ers 2012. Mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol o Opera Cenedlaethol Cymru, a bu'n aelod o fwrdd The Space, asiantaeth celfyddydau digidol y Deyrnas Unedig, rhwng 2015 a 2019. Ef yw cadeirydd Fforwm Ymgynghori ar Anableddau'r British Film Institute ac mae'n Gynghorydd Anableddau i Sefydliad Paul Hamlyn.

Yn 2018, penodwyd Andrew yn Hyrwyddwr Anableddau cyntaf Llywodraeth y DU dros y Celfyddydau a Diwylliant, gan sefydlu'r rôl fel platfform pwerus i ymgyrchu dros fwy o gynhwysiant yn sectorau'r celfyddydau, amgueddfeydd a ffilm. Yn 2019, cafodd ei enwi yn rhestr The Shaw Trust Power 100 yn un o'r bobl anabl fwyaf dylanwadol yn y Deyrnas Unedig, ac fe'i nodwyd yn un o 100 o ddylanwadwyr Theatr Prydain yn The Stage. Yn 2020, cydsefydlodd Andrew #WeShallNotBeRemoved, ymgyrch argyfwng genedlaethol i ddiogelu dyfodol celfyddydau i bobl anabl yn ystod ac ar ôl y pandemig Covid-19.

Lara Ratnaraja

Ymgynghorydd ar ei liwt ei hun yw Lara sy'n arbenigo mewn amrywiaeth, arweinyddiaeth, cydweithredu, syniadau, arloesedd a gweithredu polisïau diwylliannol yn y sector Addysg Uwch, diwylliannol a digidol.

Mae'n datblygu a chyflawni prosiectau a pholisïau ynghylch sut mae diwylliant a thechnoleg ddigidol yn croestorri i nifer o bartneriaid cenedlaethol, yn ogystal â rhaglenni ynghylch arweinyddiaeth, gwytnwch a datblygu busnes i'r celfyddydau.

Ar hyn o bryd, mae'n cyflawni ac yn datblygu prosiectau traws-sector gyda phartneriaid preifat, cyhoeddus, Addysg Uwch ac eraill ym maes addysg.

Cyd-gynhyrchodd Lara RE:Present ac ASTONish; rhaglenni datblygu arweinyddiaeth oedd yn cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu arweinwyr diwylliannol o gefndiroedd amrywiol, fel bod ecoleg ddiwylliannol y ddinas yn adlewyrchu'n well y ddemograffeg sy'n newid. Y partneriaid cyllido oedd Cyngor Celfyddydau Lloegr a Chyngor Dinas Birmingham.

Roedd hi hefyd yn frocer ar brosiect CATH (Collaborative Triple Helix) Prifysgol Birmingham a ariannwyd gan  Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, a ddatblygodd 19 o brosiectau cydweithredol ar draws Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr gydag academyddion, sefydliadau diwylliannol a busnesau bach a chanolig digidol. Arweiniodd y prosiect ymchwil at weithio cydweithredol a buddsoddiad yn y tymor hir. Daeth Lara wedyn yn Uwch Hwylusydd Ymchwil gan ysgogi buddsoddiad ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a chydweithrediadau ymchwil pellach rhwng academyddion, sefydliadau diwylliannol ac artistiaid ar draws y sector.

Mae Lara hefyd wedi datblygu, rheoli a chyflawni rhaglenni a phrosiectau ERDF, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ac ACE llwyddiannus, ynghyd â rhai eraill a gyllidwyd ac nas cyllidwyd

ar draws sectorau, ac mae'n uchel ei pharch fel dylanwadwr allweddol yn y gwaith o ddatblygu polisi'r sector.

Mae'n aelod o Fwrdd Theatr Derby a phrosiectau Vivid, ynghyd â grwpiau cynghori Biennial Coventry a gŵyl SHOUT. Mae'n aelod o gyngor ardal Canolbarth Lloegr o Gyngor Celfyddydau Lloegr ac yn Hyrwyddwr Diwydiant Canolfan Polisi a Thystiolaeth y Diwydiannau Creadigol.

Guto Gwilym-Taylor

Mae Guto yn swyddog Iaith Gymraeg yn Swyddfa Archwilio Cymru ers pedair blynedd, ac yn gadeirydd ei rhwydwaith LGBTQ Spectrum am dair o'r rheiny, gan helpu i sefydlu Fforwm Cadeiryddion Rhwydwaith LGBTQ De Cymru. Mae'n aelod o Pride in Public Sector, sef consortiwm o rwydweithiau staff LGBT ar draws y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig. Mae Guto hefyd yn Rhingyll Arbennig gyda Heddlu De Cymru, yn gweithio o orsaf Caerdydd Canolog.

Ele Hicks

Mae Ele wedi cymryd rhan mewn grwpiau gweithredu cymunedol a gwirfoddol mewn meysydd amrywiol ers mwy na 25 o flynyddoedd, gan gyd-drefnu ei grŵp cymunedol cyntaf yn 13 oed.

Ers 2001, mae Ele wedi gweithio'n bennaf ym meysydd LGBT ac Anableddau, yn ogystal â chydraddoldeb ar draws meysydd. Mae'r gwaith wedi cynnwys rolau etholedig fel Swyddog Myfyrwyr LGBT ac Anabl Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe, cynrychiolydd Myfyrwyr Anabl ar bwyllgor LGBT Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr y Deyrnas Unedig a Swyddog Myfyrwyr Anabl UCM Cymru.

Mae Ele wedi cynnal amrywiaeth fawr o ymgyrchoedd, hyfforddiant, digwyddiadau a mentrau fel rhan o'r swyddi hyn, gan gynnwys digwyddiad cyntaf Disability Pride Cymru, ymgyrchoedd iechyd meddwl cadarnhaol a lobio, a darparu amrywiaeth fawr o hyfforddiant ar gydraddoldeb. Bu'n gweithio mewn elusennau cydraddoldeb trydydd sector ers 2006 yn cyflawni gwaith polisi cydraddoldeb, hyfforddiant, rheoli gwirfoddolwyr, cynnwys dinasyddion, digwyddiadau ac ariannu.

Yn ei hamser rhydd, mae Ele yn aelod o bwyllgorau Bi Cymru a Bi Abertawe, gan gydgysylltu gweithgareddau, ymgyrchoedd, digwyddiadau a grwpiau sy'n ymwneud â materion deurywiol yng Nghymru.

Mae Ele wedi gweithio fel Rheolwr Polisi Diverse Cymru ers dros 8 mlynedd. Mae ei rôl yn cynnwys ymateb i ymgynghoriadau a mentrau sy'n berthnasol i gydraddoldeb gan amrywiaeth o sefydliadau sector cyhoeddus; ymgysylltu â phobl amrywiol yng Nghymru ar draws y nodweddion gwarchodedig; rheoli a chyflawni ymchwil arbenigol ym maes cydraddoldeb; cynrychioli barn a materion o bwys mewn cyfarfodydd strategol; a darparu amrywiaeth fawr o hyfforddiant ac ymgynghori ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Shereen Williams

Shereen Williams yw Prif Swyddog Gweithredol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cyn dechrau yn y swydd hon ym mis Ionawr 2019, bu'n gweithio ym maes llywodraeth leol am bron deng mlynedd. Fel swyddog llywodraeth leol, bu'n gweithio i awdurdodau lleol Casnewydd a Sir Fynwy fel Rheolwr Clymu Cymunedau, a chyn hynny fel Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Dwyrain Gwent. Bu'n rheolwr ar dîm oedd yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau strategol gan gynnwys mudo, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y Gymraeg, Cydraddoldebau a Chydlyniant Cymunedol. Yn ystod ei hamser yn gweithio i lywodraeth leol, goruchwyliodd nifer o brosiectau allweddol fel rhan o'i rôl, gan gynnwys adleoli cyn-gyfieithwyr y Fyddin Brydeinig o Afghanistan ac adsefydlu ffoaduriaid o Syria yn nwyrain Gwent.

Yn ystod y 15 mlynedd ddiwethaf, gwirfoddolodd i wneud 30 o rolau yn y trydydd sector ynghyd â rhai mewn cyrff statudol. Ar hyn o bryd, mae'n ymddiriedolwr Ambiwlans Sant Ioan Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig. Mae hefyd yn Is Gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Llanwern ac yn ustus mewn swydd yng Ngwent.

Am ei gwaith yn y trydydd sector, enillodd Shereen Wobr Uthman Dan Fodio am Ragoriaeth ym maes Datblygu Cymunedol yng Ngwobrau Newyddion Mwslimaidd y Deyrnas Unedig yn 2009, a Gwobr Cydnabod Llwyddiant Llywodraeth Cymru am ei gwasanaethau i faes Cydlyniant Cymunedol yn 2010. Cafodd MBE er anrhydedd am wasanaeth cymunedol yn 2017, ac yn 2018 cafodd ei chydnabod gan yr Association to Advance Collegiate Schools of Business (AACSB) yn ei her arweinwyr dylanwadol, sy'n gwobrwyo alumni rhyngwladol nodedig o ysgolion busnes a achredwyd gan yr AACSB. Ym mis Chwefror 2020, daeth yn Swyddog Urdd Sant Ioan.

Devinda De Silva

Mae gan Devinda dros 20 mlynedd o brofiad o weithio ym maes newid cymdeithasol. Mae wedi gweithio mewn partneriaeth â chymunedau ledled Cymru a thramor, gan ganolbwyntio ar y celfyddydau a'u gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, datblygu arferion seiliedig ar gyd-greu a chyfranogi ystyrlon.

Fel Pennaeth Cydweithio Theatr Genedlaethol Cymru, mae wedi arwain y broses o greu a datblygu'r rhaglen TEAM – dull arloesol y cwmni o ymgysylltu.

## Cyflawni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol

Yn ystod 2019/20 rydym wedi monitro ein cynnydd gyda'r tasgau beunyddiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Cyhoeddasom ganlyniadau ein trafodaethau mewn adolygiad canol-blwyddyn.

Mae ein cynllun yn dal i roi sylw i'r ddyletswydd gyffredinol i:

- Ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt.

Mewn perthynas â'r dyletswyddau penodol i Gymru, rydym wedi:

- Parhau i fonitro ac adrodd ar wahaniaethau cyflog gan gyfeirio'n benodol at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Casglu a monitro data cyflogaeth, gan gynnwys ceisiadau am swyddi yng Nghyngor y Celfyddydau (er bod angen o hyd inni fwrw ymlaen â'n gwaith i fonitro hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ymysg ein staff)
- Parhau i gynhyrchu asesiadau manwl o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer ein holl bolisïau, rhaglenni a phrosiectau.
- Cynnwys disgwyliadau o ran cydraddoldeb yn ein polisi a phrosesau caffael, ond nid ydym wedi datblygu proses eto i fonitro cynnydd yn erbyn y disgwyliadau hyn.

## Tystiolaeth o'r Pum Ffordd o Weithio

### Integreiddio ein gwaith â gwaith cyrff cyhoeddus eraill

Rydym wedi ymuno â rhwydwaith o 11 o gyrff cyhoeddus er mwyn datblygu amcanion cydraddoldeb cyffredin ar gyfer y cyfnod nesaf o gynllunio gweithredoedd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Canlyniad y gwaith hwn, a oedd yn cynnwys cyfres o sesiynau rhanddeiliaid ledled Cymru a hwyluswyd gan Diverse Cymru, oedd Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol sydd i'w gyhoeddi ar ddiwedd mis Mawrth.

Gohiriwyd y gwaith o gyhoeddi a lansio'r cynllun oherwydd dyfodiad Covid-19. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys cyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwaraeon Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, Comisiynydd y Gymraeg, Gyrfaoedd Cymru, ymysg eraill.

Bydd y bartneriaeth hon yn parhau, gan ymrwymo i fonitro ein cynnydd yn erbyn yr amcanion ac i rannu dysgu ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg.

### Cynyddu nifer y mentrau cydweithredol a phartneriaethau rydym yn rhan ohonynt

Mae mentrau cydweithredol a phartneriaethau cadarn yn parhau i fod yn hanfodol i'n gwaith. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'r partneriaethau lefel strategol yr ydym wedi eu meithrin a'u sefydlu.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Chynghorau'r Celfyddydau eraill ar draws y Deyrnas Unedig, gan ddysgu o'u gwaith hwythau a rhannu ein gwaith ninnau. Buom yn canolbwyntio'n benodol yn 2019/20 ar ein hymwneud ag astudiaeth yn edrych ar y potensial ar gyfer cynllun cerdyn mynediad ledled y Deyrnas Unedig. Er nad ydym yn cymryd rhan uniongyrchol o ran comisiynu'r gwaith hwn, rydym wedi gallu rhannu ein profiad o gynnal cynllun Hynt yng Nghymru, ac wedi nodi ein hawydd i barhau i fod yn rhan o'r datblygiad hwn wrth symud ymlaen.

Rydym yn gweithio gyda chyrff cydraddoldeb allweddol i helpu i fwrw ymlaen â'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Stonewall Cymru, Diverse Cymru, Chwarae Teg, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Race Council Cymru, Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rydym wedi partneru gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau i ddatblygu mentrau cydweithredol megis Sefydliad Baring a phrosiect **cARTrefu** i fynd â'r celfyddydau creadigol i gartrefi gofal.

### Gwrando ar ein staff, rhanddeiliaid a buddiolwyr

Mae ein grŵp monitro cydraddoldeb yn cynnwys staff o wahanol rannau o'r sefydliad yn ogystal â chynghorwyr allanol.

Mae ymgynghori â rhanddeiliaid ehangach – yn enwedig y sefydliadau ac unigolion hynny nad oes gennym berthynas barhaus â nhw eisoes – yn dal i fod yn un o'n nodau allweddol ac yn her barhaus inni.

Dyma ran o'n gwaith a ddaeth yn amlwg iawn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 a dechrau 2020/21. Mae'n ffordd o weithio sy'n galw am newid sylweddol er mwyn sicrhau ein bod ni'n clywed oddi wrth ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth o leisiau - artistiaid a chymunedau - sydd wedi teimlo hyd yma eu bod wedi'u heithrio o'n hystyriaethau.

Rydym yn cydnabod bod angen inni wella a gweddnewid y ffordd yr ydym yn cynnwys rhanddeiliaid a buddiolwyr yn ddyfnach yn y gwaith o gynllunio a chreu ein polisïau a'n rhaglenni.

## Atal Niwed

Mae ein hamcanion cydraddoldeb wedi cael eu cynllunio i roi sylw i'r agenda atal.

## Meddwl yn y Tymor Hir

Mae hwn yn dal i fod yn un o'r ffactorau sbarduno allweddol i'n gwaith. Mae ystyried effaith tymor hirach yr hyn a wnawn yn awr wedi'i wreiddio'n ddyfnach yn ein gwaith cynllunio.



Darlun Meistr Criw Celf gyda Jon Williams, Mission Gallery

## Unlimited 2019-20

Mae Unlimited yn rhaglen gomisiynu celfyddydol sy'n cynorthwyo â chreu gwaith newydd gan artistiaid anabl ac yn ei gwneud yn bosibl iddo gyrraedd cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Nod Unlimited yw newid canfyddiadau am bobl anabl trwy gomisiynu artistiaid anabl yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol i greu gwaith newydd o ansawdd sy'n torri tir newydd. Ochr yn ochr â hyn nod Unlimited yw creu cymuned o gynghreiriaid, Unlimited Allies sy'n helpu i wreiddio gwaith artistiaid anabl yn y sector diwylliannol prif-ffrwd a gwella mynediad ar gyfer artistiaid a chynulleidfaoedd.


Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n rhan o'r rhaglen ers 2014 ac wedi cefnogi 7 comisiwn ar gyfer artistiaid Cymreig/yng Nghymru trwy ei gyfraniad ariannol, ynghyd â chymorth, hyfforddiant a chyfleoedd i alumni ac artistiaid y rhestr fer.

### Gwnaethpwyd dyfarniadau cyfredol Unlimited yng Nghymru yn 2018/19 ac roeddent yn dal i fod yn weithredol trwy gydol 2019/20.

**Cafodd Suzie Larke ddyfarniad brif linell ar gyfer "Unseen".** Cynhyrchiad o waith ffotograffig, a'r daith wedi'i gohirio ar hyn o bryd, er y gobaith yw y bydd gweithiau graddfa fawr yn ganolbwynt i Ŵyl Southbank Unlimited yn hydref 2021. Mae'r comisiwn hwn wedi ennyn llawer o ddiddordeb gan y BBC a hyrwyddwyr rhyngwladol hefyd. Dyma ddolen at fwy o wybodaeth am y comisiwn ar wefan Unlimited:

https://weareunlimited.org.uk/commission/suzie-larke-unseen/.





Cafodd Jonny Cotsen ddyfarniad Ymchwil a Datblygu ar gyfer Hearing Hearing Aids

*"Yn aml dwi'n meddwl, 'Sut brofiad fyddai clywed sgwrs gyfan?' Ond pe tai hynny'n wir, nid fi fyddwn i! Ni fyddwn yn Fyddar. Ydy pobl sy'n clywed yn dymuno weithiau y byddan nhw yn eu tro'n fyddar? Fyddai pobl sy'n clywed yn gadael imi eu tywys i fyd y byddar? Fydden nhw'n teimlo bod ganddynt ryw rym arbennig fel Swperted?"* – Jonny Cotsen.

Cwblhawyd y gwaith Ymchwil a Datblygu yn fuan iawn cyn cyfnod cyfyngiadau Covid 19, prosiect ymdrochol sy'n defnyddio'r synhwyrau a thechnoleg i edrych ar gyfathrebu. Bydd y prosiect yn symud ymlaen at gwblhau a theithio yn awr. Gallwch ddarllen mwy am y prosiect yma:

https://weareunlimited.org.uk/commission/jonny-cotsen-hha-hearing-hearing-aids/




Cafodd Nye Russell Thompson/Stammermouth ddyfarniad Ymchwil a Datblygu ar gyfer It HZ

Cwblhawyd y prosiect hwn ac mae ganddo'r potensial i symud yn gyflym i'r cam creu a theithio. Bu oedi i'r broses hon oherwydd ton newydd o boblogrwydd i waith a gefnogwyd ynghynt gan Unlimited (Just a Few Words – a gafodd ddyfarniad pan oedd yn gweithio yn Lloegr) a gafodd ddau gyfle i fynd ar daith ym Mecsico. Meddyliau negyddol ymwthiol yw cynnwys y gwaith newydd, sy'n amserol iawn. Darllenwch fwy yma:

https://weareunlimited.org.uk/commission/stammermouth-it-hz/

Cafodd Stephanie Back ddyfarniad Artistiaid sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ISILY

Cafodd y darn hwn ei ddatblygu ac erbyn hyn mae'n cael ei gynorthwyo'n uniongyrchol gan Gyngor Celfyddydau Cymru (trwy ail gais). Gohiriwyd y gwaith o ddatblygu'r darn ymhellach oherwydd Covid 19 ond talodd Unlimited Stephanie i ddweud mwy am y prosiect mewn blog diweddar -

https://weareunlimited.org.uk/i-said-i-love-you-a-peek-into-our-tri-lingual-theatre-world/



## Unlimited Connects Cymru

Wedi'i ariannu trwy gyllid y Loteri, roedd Unlimited Connects Cymru yn rhoi cyfle inni ac Unlimited gynnal rhaglen o waith gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd i artistiaid anabl yng Nghymru arddangos eu gwaith.

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar fwyhau effaith artistiaid anabl yng Nghymru. Gwyddom nad yw comisiynu gwaith yn unig ddim yn ddigon – rhaid ennyn diddordeb y sector er mwyn i waith ffynnu. Rydym eisiau bod yn rhan o sector diwylliannol yng Nghymru sy'n parhau i symud ymlaen, sef y rheswm dros ddatblygu'r prosiect ychwanegol hwn yn 2019/2020, sydd erbyn hyn wedi'i ymestyn i 2020/2021 oherwydd Covid 19. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru trwy'r prosiect, lle cafwyd trafodaethau ynghylch artistiaid anabl, cynulleidfaoedd a mynediad, gan edrych ar ffyrdd o wreiddio arferion ledled y sector.

Bwriadwyd cynnal wyth digwyddiad a chynhaliwyd pump ohonynt – yng Nghanolfan Mileniwm Cymru (Caerdydd), Theatr y Torch (Aberdaugleddau), Y Ffwrnes (Llanelli), Theatr Brycheiniog (Aberhonddu) a Galeri (Caernarfon). Canslwyd dau o'r digwyddiadau arfaethedig, yn Aberystwyth ac Abertawe oherwydd Covid, ond cynhaliwyd digwyddiad ar-lein terfynol ar 5 Awst o'r enw "Unlimited Connects Wales: Into the Future."

Ceir dolen i'r adroddiad yma:

https://weareunlimited.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/UNLIMITED_Online-Event-Prog_ARTWORK.pdf

## Camau Creadigol

### Taith Camau Creadigol Fio

Cwmni theatr a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n gweithio yng Nghaerdydd yw Fio. Mae wedi datblygu hanes o gynyrchiadau newydd, hyfforddiant a datblygiad i artistiaid ac ymgysylltu cymunedol. Mae ei holl waith yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol. Mae Fio wedi ymrwymo i newid bywydau trwy roi i bobl nad oes ganddynt ddigon o gynrychiolaeth ffyrdd o adrodd eu stori. Uchelgais Fio yw troi'r lleisiau wedi'u hymyleiddio hyn yn brosiectau a pherfformiadau sy'n taro tant gyda chynulleidfaoedd.

Dechreuodd Fio ar ei daith Camau Creadigol ym mis Rhagfyr 2016 pan ddyfarnwyd grant bach i'r cwmni i ganiatáu iddo weithio gydag arbenigwr codi arian er mwyn datblygu strategaeth codi arian a'i rhoi ar waith. Dyfarnwyd grant bach arall i'r cwmni ym mis Mehefin 2017 a alluogodd Fio i weithio gydag ymgynghorydd datblygu busnes i gyflawni cyfnod o waith diagnosteg drefniadol gyda'r nod o gytuno ar y camau nesaf priodol i Fio eu cymryd o ran datblygu ei fusnes.

Gan adeiladu ar argymhellion yr ymyriadau llai o faint hyn, dyfarnwyd grant Camau Creadigol Blwyddyn 1 gwerth £50,000 i Fio ym mis Mehefin 2018. Yn wreiddiol, roedd y prosiect hwn i fod i ddod i ben ym mis Mai 2019, ond fe'i hestynnwyd hyd fis Hydref 2019. Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, gweithiodd Fio gydag ymgynghorwyr i ddatblygu ei Gynllun Busnes, cyflawnodd Archwiliad Iechyd Llywodraethiant a datblygodd ei Fwrdd. Yn ogystal â chyfrannu at rôl y Cyfarwyddwr Artistig, roedd y cais gwreiddiol yn cynnwys dwy swydd ran-amser newydd sef Cynhyrchydd Gweithredol a Rheolwr Cyllid. Cafodd rôl y Rheolwr Cyllid ei gwreiddio'n llwyddiannus yn nhîm y staff a chafodd effaith sylweddol ar reolaeth a systemau ariannol cwmni Fio. Fodd bynnag, nid oedd rôl y Cynhyrchydd Gweithredol mor llwyddiannus, ac yn lle hynny gweithiodd y cwmni gydag ymgynghorwyr i fwrw ymlaen â'r gwaith datblygu busnes.

Dyfarnwyd grant Camau Creadigol cyfredol Fio gwerth £85,000 i'r cwmni ym mis Rhagfyr 2019, ac mae i fod i redeg hyd ddiwedd mis Mawrth 2021. Mae'r grant hwn yn parhau i gynorthwyo â rolau'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Rheolwr Cyllid a bwriadwyd ail-edrych ar rôl Cynhyrchydd Gweithredol amser llawn. Fodd bynnag, cafwyd saib yn y rhaglen waith oherwydd Covid 19.

Wedi cael cyllid Camau Creadigol ar gyfer yr ochr datblygu busnes o waith y cwmni, mae Fio hefyd wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus i raglenni Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi ariannu'r gwaith o greu a chynhyrchu gwaith a mynd ag ef ar daith ar draws Cymru. Mae'r rhain wedi cynnwys cymorth ar gyfer cynyrchiadau Swarm, The Mountaintop, Orchard of Lost Souls, the Island, rhaglen datblygu artistiaid a Fio: Futures. Mae'r cwmni wedi cael buddsoddiad gwerth £494,801 ers ei gynnwys yn rhaglen Camau Creadigol yn 2016.

## Taith Camau Creadigol Taking Flight

Mae Taking Flight yn sefydliad theatr a arweinir gan bobl anabl sydd wedi cael cyllid Camau Creadigol i gynorthwyo â'i waith datblygu busnes ers mis Chwefror 2016. Yn wreiddiol, daeth y cwmni'n rhan o'r rhaglen yn dilyn cais aflwyddiannus i'n hadolygiad buddsoddiad diwethaf a arweiniodd at adborth oddi wrth ein Cyngor i weithio gydag ef trwy raglen Camau Creadigol i gynorthwyo â'i ddatblygiad.

Mae Taking Flight wedi datblygu dros y cyfnod hwn ac wedi cryfhau ei allu trefniadol yn sylweddol. Erbyn hyn mae'n gweithio fel sefydliad uchel ei barch ac 'un i fynd iddo' yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gan arbenigo mewn creu gwaith a chynorthwyo eraill i greu a chyflwyno gwaith cynhwysol a hygyrch.

Mae cyllid Camau Creadigol wedi galluogi'r sefydliad i feithrin ei allu trwy gyflogi Rheolwr Datblygu Busnes a chyfraniadau at gyflogau'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Datblygu. Mae datblygiad y cwmni a'r bwrdd ymddiriedolwyr wedi arwain at drawsnewid y cwmni'n sefydliad a arweinir gan bobl anabl. Mae ei grant Camau Creadigol cyfredol yn ei gynorthwyo i barhau â'r gwaith hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar godi ei broffil trwy wireddu ei bolisi iaith, gwella gweladwyedd trwy ei blatfformau ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â swydd marchnata llawrydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â chynyddu'r incwm mae'n ei ennill a chael cyllid oddi wrth ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill, mae'r cwmni hefyd wedi llwyddo i gael cyllid o raglenni Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi creu a theithio cynyrchiadau fel The Tempest Inclusive, You've Got Dragons a Peeling. Mae hefyd wedi cyflawni amrywiaeth o raglenni hyfforddiant a datblygu cynulleidfaoedd gan ganolbwyntio ar wella hygyrchedd i theatr. Mae'r cwmni wedi cael buddsoddiad gwerth £602,065 ers ei gynnwys yn rhaglen Camau Creadigol.



You've Got Dragons

## Taith Camau Creadigol Race Council Cymru

Race Council Cymru (RCC) yw'r corff trosfwaol a sefydlwyd gan gymunedau lleiafrifol ethnig ar draws Cymru sy'n gweithio i ddathlu amrywiaeth, ac i frwydro yn erbyn rhagfarn hiliol a gwahaniaethu ar sail hil. Mae ar flaen y gad o ran hyrwyddo gweithgareddau celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol cymunedau duon. Ers ei sefydlu yn 2010, mae RCC wedi datblygu ei rôl fel sefydliad pwrpasol i hyrwyddo cyflawniad pobl dduon trwy ddarparu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribïaidd gymryd rhan mewn celfyddydau creadigol cyffrous a rhannu eu treftadaeth ddiwylliannol â holl bobloedd Cymru.

Dechreuodd ein perthynas ariannu gyda'r Cyngor yn 2016, pan ddyfarnasom grant gwerth £20,000 i'r sefydliad i gefnogi cyfres o weithgareddau Mis Hanes Pobl Dduon (gweithdai a pherfformiadau) ar draws Cymru, gan gynnwys digwyddiadau yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Hydref 2016. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys cyflawni gwaith datblygu busnes ffocysedig er mwyn llywio dyfodol y digwyddiad. Roedd yn dilyn cyfnod cyson o gymorth gan Gyngor y Celfyddydau i weithgareddau Mis Hanes Pobl Dduon ers 2008, i ddechrau trwy grantiau a ddyfarnwyd i Rwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon ac wedyn trwy Diverse Cymru. Cymerodd RCC drosodd y gwaith o reoli'r rhaglen yn dilyn trafodaethau gyda Grŵp Llywio Mis Hanes Pobl Dduon.

Ysgwyddodd RCC y rôl ar adeg pan oedd digwyddiadau a phartneriaethau Mis Hanes Pobl Dduon wedi'u sefydlu ar draws Cymru, ac roedd y rhaglen yn nodwedd sefydledig o flwyddyn i flwyddyn. Roedd patrwm o waith ymgysylltu cadarn â chymunedau a chynnal digwyddiadau bywiog pob blwyddyn, gan ddarparu cyfleoedd i artistiaid duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ond cydnabuwyd y gallai'r rhaglen elwa o feithrin cysylltiadau gyda'r sector celfyddydol ehangach, a thrwy hynny galluogi'r fenter i gyrraedd ei photensial llawn. Roedd y grant cyntaf hwn i RCC yn cynnwys datblygu Strategaeth sydd wedi llywio'r gwaith parhaus o gyflawni ei waith yn hyn o beth.

Yn 2017, dechreuasom weld effaith y datblygiad hwn wrth i Ganolfan Mileniwm Cymru fuddsoddi £10,000 mewn digwyddiad yn y ganolfan wedi'i guradu gan bobl ifanc ynghyd â pherthynas gadarnach gyda'r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol.

Yn 2018, roedd mwy o fuddsoddiad wedi galluogi RCC i gyflogi Swyddog Datblygu'r Celfyddydau i helpu i wella cyfeiriad artistig ei raglennu, meithrin partneriaethau celfyddydol ac ariannu newydd a datblygu rhaglenni ymgysylltu â phobl ifanc. Hefyd, dechreuodd rhaglen flwyddyn gyfan yn y flwyddyn hon, trwy BHCymru 365.

Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus yn 2018, yn arbennig o ran meithrin partneriaethau yn y sector celfyddydol, roedd cynnydd sylweddol yn y buddsoddiad gan Gyngor y Celfyddydau wedi cynorthwyo RCC i gyflawni rhaglen lawer mwy 2019/20. Mis Hanes Pobl Dduon yw ei weithgaredd celfyddydol blynyddol amlycaf o hyd, gan ddenu sylw, darparu platfformau i dalentau pobl dduon ac ymgysylltu cynulleidfaoedd newydd â diwylliant pobl dduon, ond yn unol â'i strategaeth, mae wedi cynyddu'r digwyddiadau celfyddydol o ansawdd da mae'n eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn (BHC365), gan weithio gyda phartneriaid yn y sector celfyddydol. Mae rôl Swyddog Datblygu'r Celfyddydau wedi helpu'r sefydliad i ddenu mwy o gyllid partneriaethol a chymorth mewn nwyddau ac wedi creu ffocws mwy strategol. Erbyn hyn mae'r swydd yn cael ei chefnogi gan Swyddog Datblygu'r Celfyddydau rhan-amser i ogledd Cymru i estyn allan i gymunedau, lleoliadau a phartneriaid busnes ac i wreiddio Mis Hanes Pobl Dduon a BHC365 yn niwylliant celfyddydol yr ardal.

Mae RCC wedi llwyddo i feithrin partneriaethau gyda nifer fawr o sefydliadau celfyddydol gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Tŷ Pawb, yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Glan yr Afon Casnewydd, Theatr y Grand Abertawe a Chyngor Abertawe. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu RCC i fwrw ymlaen â'i strategaeth o hyrwyddo talentau pobl dduon sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg, ynghyd â denu cynulleidfaoedd newydd.

Mae hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd i bobl dduon ifanc gymryd rhan mewn gwaith datblygu artistig fel perfformio, cynhyrchu a rheoli yn y celfyddydau. Eleni, roedd ei bartneriaid yn y gwaith o ddarparu'r cyfleoedd hyfforddi hyn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Theatr Glan yr Afon a Neuadd Ogwen. Mae Cyngor Abertawe bellach yn cefnogi lansiad Mis Hanes Pobl Dduon mewn partneriaeth ag RCC ac 14 o grwpiau cymunedol pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ynghyd â rhaglen flwyddyn BHC365 a gefnogir gan fentoriaid Gorwelion y BBC a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae Cymdeithas Gwirfoddoli Zimbabwe Casnewydd yn arwain llawer o grwpiau cymunedol ac ieuenctid pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er mwyn gweithio gyda Theatr Glan yr Afon, Casnewydd, i ddarparu digwyddiad lansio yn ogystal â rhaglen BHC365. Nod y strategaeth yw datblygu'r bobl ifanc hyn yn rheolwyr a darparwyr digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon o ansawdd da yn y dyfodol.

Drwy gydol y cyfnod hwn mae RCC a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi bod â pherthynas gyd-gefnogol ac rydym hefyd mewn trafodaethau ynghylch sut y gallem gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ei fenter Hyb yn Theatr y Grand Abertawe. Mae'r sefydliad wedi cael buddsoddiad gwerth £229,790 ers cael ei gynnwys yn y rhaglen Camau Creadigol.

## Taith Camau Creadigol G-expressions

Mae G-expressions yn sefydliad a arweinir gan bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael cyllid Camau Creadigol i gynorthwyo â'i waith datblygu busnes ers mis Ionawr 2019. Mae'n gweithio trwy ddawns a theatr gyda phobl ifanc wedi'u hymyleiddio yng Nghasnewydd, llawer ohonynt o gefndiroedd duon ac Asiaidd. Daeth y sefydliad i'r cynllun â chysylltiadau cymunedol helaeth a sefydledig, a hanes llwyddiannus iawn o ymgysylltu a gweithio gyda phobl ifanc a nodir fel rhai "wedi'u hymyleiddio". Fodd bynnag, roedd angen datblygu strwythur a dull busnes y cwmni i'w alluogi i ffynnu.

Ym mis Ionawr 2019 cafodd grant Camau Creadigol bach i weithio gydag ymgynghorydd busnes i gyflawni gwiriad diagnosteg drefniadol, gan edrych ar y cynllun busnes, strwythur a statws cyfreithiol, yn ogystal â meysydd fel codi arian. Cwblhawyd y cyfnod datblygu cyntaf hwn yn llwyddiannus gan gynnwys y tîm cyfan a'r bobl ifanc. Mae Camau Creadigol wedi cefnogi datblygiad a hyder y tîm ac yn ei adroddiad cwblhau ar gyfer y cyfnod cyntaf hwn nododd 'hoffai tîm G-expressions ddweud ei fod wedi profi'r teimlad gorau cyn gynted ag yr oedd y Cynllun Busnes wedi'i gwblhau. Roedd gwybod sut y cafodd ei greu, yr amser a gymerodd, y bobl a gymerodd ran trwy gydol y pedwar mis o weithio ochr yn ochr, gan wrando ar ei gilydd, parchu barn/syniadau ei gilydd a chynnwys hynny mewn un ddogfen weithio, yn pwysleisio'r ffaith bwysig fod gan bobl ifanc lawer i'w roi o ran eu hunan-ddatblygiad, a bod angen i oedolion ganfod ffyrdd o'u cynnwys yng nghyfnod datblygu unrhyw broses y bwriedir iddi gyfrannu at hunan-ddatblygiad pobl ifanc.'

Cyn gwneud cais am y flwyddyn gyntaf lawn o gyllid Camau Creadigol, roedd G-expressions eisoes yn rhoi ei gynllun busnes newydd ar waith yn frwdfrydig, er enghraifft, meithrin partneriaeth newydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ym mis Tachwedd 2019, dyfarnwyd grant Camau Creadigol Blwyddyn 1 gwerth £35,800 i G-expressions i'w alluogi i barhau â'r broses datblygu busnes. Er gwaethaf yr heriau a ddaeth yn sgìl Covid 19 mae'r cwmni eisoes yn gwneud cynnydd yn erbyn ei nodau datblygu busnes. Mae yna ymdeimlad o'r tîm yn cydweithio i gynorthwyo ei gymuned o bobl ifanc yn greadigol, gan weithio mewn ffyrdd gwahanol erbyn hyn.



G-expressions

Yn ystod y cyfnod hwn, mae G-Expressions hefyd wedi llwyddo i ddenu cyllid arall gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys arian tuag at raglen datblygu dawns a GK Digital Takeover. Mae'r sefydliad wedi cael buddsoddiad gwerth £91,800  ers ei gynnwys yn rhaglen Camau Creadigol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

www.celf.cymru